Cyngor Cymuned Ganllwyd

Medi 11eg 2024

**Presennol**

Cyng D.Morris, C.Edwards, S.Roberts,C.Dixon,G.Hughes a S.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths a G.Jones

**Cofnodion Gorffenaf 2024.**

Cynnigodd Cyng C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfa**rfod.

Dim.

**Greame Stringer -Cyfoeth Naturiol Cymru**.

Croesawodd y cynghorwyr Mr Stringer i'r cyfarfod i drafod y llwybrau 'Tramper' newydd yng Nghoed y Brenin,Ganllwyd.

Esboniodd Mr Stringer fod y tramper yn gerbyd oddi ar y ffordd sydd wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio gan bobl anabl ar lwybrau coedwigaeth. Ar hyn o bryd mae 2 dreial yn bodoli yng Nghoed y Brenin gyda chynlluniau i gyflwyno o leiaf 2 lwybr newydd.

Mae'r defnydd o'r tramper yn rhad ac am ddim i aelodau grŵp symudedd cefn gwlad, sefydliad sy'n helpu pobl anabl. Gall unrhyw berson ag anabledd ddod yn aelod o'r sefydliad hwn.

Pwysleisiodd Mr Stringer fod y llwybrau tramper yn brosiect hir dymor ac y byddant yn aros yng Nghoed y Brenin ar ôl i'r materion presennol gyda'r ganolfan gael eu datrys waeth beth fo'r canlyniad.

Diolchodd y cyngor i Mr Stringer am ei gyflwyniad a chadarnhau eu cefnogaeth i'r cynllun. Anogodd y cyngor Mr Stringer i hysbysebu'r prosiect hwn yn lleol er mwyn cynyddu'r defnydd o'r cyfleuster.

**Materion yn codi.**

Grant y Parc- dim newyddion pellach.

Bydd diweddariad ynghylch a fydd cyfleuster rhyngrwyd yn neuadd y pentref yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

Caru Coed y Brenin.

Cafodd y pwyllgor CCB newyddion bod rheolaeth CNC mewn ymgynghoriad ag undebau llafur priodol ar ôl datgan y posibilrwydd o ddiswyddiadau ar draws y sefydliad.

O ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori sy'n dod i ben ar 12 Medi 2024, mae wedi bod yn anodd gwneud unrhyw gynnydd go iawn o ran y mater hwn.

Mae'r cyngor cymuned wedi cael gwybod bod gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys Huw Irannca Davies ac yr AS Liz Saville Roberts yn monitro y mater hwn.

Mae'r cyngor yn cymeradwyo cyfranogiad gwleidyddion uchel eu statws yn y broses hon. Mae'r cyngor cymuned wedi nodi nad yw'n ymddangos bod uwch reolwyr CNC yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau/dilorni gyda Caru Coed y Brenin yn y mater hwn.

Gobeithio y bydd y sefyllfa hon yn newid a gall trafodaethau ynghylch dyfodol Coed y Brenin fod yn fwy cadarnhaol.

**Cynghorwr Sir**.

Ddim yn bresennol.

Bydd y clerc yn trafod y materion canlynol gyda Cyng Griffiths;

Mae’r cynghorwr wedi derbyn cais yn ymwneud a ymgynghoriad cyhoeddus rhif EPR/GB3835DE/V006 ynglyn a Gorsaf Bwer Trawsfynydd. Bydd y clerc yn gyrru copi o’r e-bost i’r cynghorwyr a gofyn am sylwadau yn ymwneud a’r mater.

Bydd Cyng Griffiths yn dosbarthu mwy o wybodaeth ar y mater wedi cysylltu a arbenigwyr ar y pwnc.

Polisi tai cymdeithasol yn ymwneud ag ADRA a Chyngor Gwynedd.

Mae'r cynghorwyr yn teimlo bod y polisi hwn yn gweithio i anfantais pobl sy'n aros ar restrau tai ar gyfer eiddo ac yn cyfyngu datblygiad cymunedau lleol.

Mae’r cyngor wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ar y mater yma.

A oes diweddariad?

Mast Dolfrwynnog- A fydd y gwaith ar y mast yn cynnwys gwaith i wella signal i bobl sydd hefo ffon symudol?

Erthygl 4.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Mae’r cwmni lleol Gofal Tir a Choed,Trawsfynydd wedi cwblhau y gwaith yn ymwneud a’r uchod.

**Materion ariannol.**

Cyllid misol.

Cyson Banc: Gorffennaf 2024

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £4673.45 |
| Derbyniwyd: Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.40 |
| Ysiwriant Zurich | £468.06 |
| Partneriaeth toiled | £250.00 |
| Microsoft office | £39.99 |
| Un Llais Cymru (hyfforddiant) | £40.00 |
| Cyflog y clerc | £100.00 |
| Yn y banc diwedd mis | £3770.00 |

Cyson Banc: Awst 2024

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £3770.00 |

Derbyniwyd: Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £6.60 |
| Yn y banc diwedd mis | £3663.40 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdurdododd y cynghorwyr daliad ar gyfer yr anfonebau canlynol;

| | |
|---|---|
| Awdit mewnol Cyngor Gwynedd | £360.00 |
| Awdit allanol 2020-21 | £260.00 |
| Gwasanethau tir a choed. | £1080.00 |

Mae Cyng Roberts yn cwblhau proses “Safeguarding” cyfrif banc HSBC.

Lwfansau cyghorwyr.

Adran 151 Fesur Llywodraeth Leol 2011.

Mae cynghorwyr wedi arwyddo dogfen yn nodi y bydden nhw'n hawlio unrhyw lwfansau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae’r clerc wedi rhannu’r wybodaeth yma gyda’r Llywodraeth.

**Materion cymunedol.**

Biniau halen- bydd y clerc yn cysylltu a Cyngor Gwynedd i ddarganfod y drefn i lenwi’r biniau cyn y Gaeaf.

Giat terfyn Ty Cerrig/Tyddyn Bach, Ganllwyd -Cyng Edwards i yrru llun i’r clerc er mwyn iddo gysylltu a’r cyngor ynglyn cyflwr y giat.

Ysgol Gynradd Ganllwyd- mae’r cyngor yn awyddus i glywed y sefyllfa diweddaraf gan Cyngor Gwynedd ynglyn troi’r defnyddiant yr ysgol i dai.